

At: Swyddogion Cyfrifol cyrff dyfarnu cydnabyddedig yng Nghymru  
Trwy E-bost



2 Awst 2022

Annwyl Swyddog Cyfrifol,

### **Cyhoeddi Cynnig Cymraeg: Cyflwyno'r Cynnig Gweithredol yn y System Gymwysterau (Pecyn Adnoddau Cyrff Dyfarnu)**

Yn dilyn trafodaethau a chyfweliadau a gynhaliwyd gydag ystod o gyrff dyfarnu yn ystod 2022, mae'n bleser gennyf eich hysbysu y bydd ein pecyn adnoddau a fydd yn cefnogi cyrff dyfarnu i ddarparu'r Cynnig Cymraeg ("y Cynnig Cymraeg") yn rhagweithiol yn cael ei lansio ddydd Mercher, 3 Awst. yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru<sup>1</sup>; gŵyl a gynhelir yn flynyddol i ddathlu diwylliant ac iaith Cymru.

Mae'r pecyn adnoddau hwn yn eich annog chi fel cyrff dyfarnu i ddarparu gwybodaeth wedi'i thargedu i ddysgwyr am gymwysterau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Mae'n eich annog i hyrwyddo a hysbysebu cymwysterau cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog yn fwy rhagweithiol drwy amlygu eu hargaeledd. Mae hefyd yn rhoi arweiniad i chi ar sut y gellir cyflwyno'r 'Cynnig Cymraeg' drwy gydol taith cymhwyster dysgwr ac mae'n cynnwys enghreifftiau o arfer da a dolenni defnyddiol i adnoddau, cymorth ac arweiniad ychwanegol.

Fe'i datblygwyd fel adnodd 'neidio mewn ac allan', sy'n eich galluogi i gael mynediad at wybodaeth ac adnoddau cryno sy'n gweddu orau i'ch anghenion. Mae'r pecyn yn cynnwys gwybodaeth am y canlynol:

- pam mae angen y Cynnig Gweithredol arnom;
- manteision cyflwyno'r Cynnig Gweithredol i gyrff dyfarnu, canolfannau a dysgwyr;
- sut y gall cyflwyno'r Cynnig Gweithredol roi profiad cadarnhaol yn y Gymraeg i ddysgwyr;
- enghreifftiau o arfer da wrth gyflwyno'r Cynnig Gweithredol, a
- gwybodaeth ac adnoddau defnyddiol eraill.

<sup>1</sup> <https://eisteddfod.cymru/amdanom-ni>

#### **Qualifications Wales**

Q2 Building, Pencarn Lane  
Imperial Park,  
Newport  
NP10 8AR  
☎ 01633 373 222



[www.qualificationswales.org](http://www.qualificationswales.org)

#### **Cymwysterau Cymru**

Adeilad Q2, Lôn Pencarn  
Parc Imperial,  
Casnewydd  
NP10 8AR  
☎ 01633 373 222

Gallwch gyrchu'r pecyn adnoddau *Cynnig Cymraeg: Cyflwyno'r Cynnig Gweithredol yn y System Gymwysterau* drwy ymweld â'r dudalen ganlynol ar ein gwefan:

[Cymwysterau Cymru / Cynnig Cymraeg: Darparu'r Cynnig Gweithredol yn y system gymwysterau \(qualificationswales.org\)](https://qualificationswales.org)


Mae ein strategaeth Dewis i Bawb<sup>2</sup> yn nodi ein hymrwymiad i gynyddu argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg. Yn y strategaeth hon rydym yn cydnabod, er mwyn i ganolfannau a dysgwyr deimlo eu bod wedi'u grymuso a'u hannog i gofrestru ar gyfer cymwysterau yn y Gymraeg, fod angen i wybodaeth fod ar gael ac yn hawdd ei gyrchu, yn ogystal â chael ei ledaenu'n rhagweithiol gan gyrff dyfarnu cydnabyddedig.

Mae cyhoeddi'r pecyn adnoddau hwn yn rhan o'n hymateb i wella'r wybodaeth a'r data sydd ar gael i ddefnyddwyr ar gymwysterau cyfrwng Cymraeg; maes ffocws allweddol yn ein strategaeth.

Gan adeiladu ar gyhoeddiad y pecyn adnoddau hwn, byddwn hefyd yn cynnal ymgynghoriad â rhanddeiliaid allweddol yn yr hydref i gasglu barn ar ofynion a chanllawiau sy'n ymwneud â hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o gymwysterau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog y mae cyrff dyfarnu yn eu darparu.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â chynnwys y llythyr, cysylltwch ag Osian Llywelyn, Pennaeth Polisi Rheoleiddio ar [osian.llywelyn@cymwysteraucymru.org](mailto:osian.llywelyn@cymwysteraucymru.org).

Yr eiddoch yn gywir,



Jo Richards

**Cyfarwyddwr Gweithredol dros Reoleiddio**

---

<sup>2</sup> <https://qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/dewis-i-bawb---ein-strategaeth-ar-gyfer-cynyddu-argaeledd-cymwysterau-cyfrwng-cymraeg-2020-25/>